Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Medi 8, 2015 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), John Hughes, Jane Edwards, Eirlys Roberts, Llinos Williams, Cerwyn Evans a Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins a Henry Edwards

1. Ymddiheuriadau: Gethin Williams.

2. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 14, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 14, 2015

Nid oedd materion yn codi.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (21/07/2015) oddi wrth Hacker Young gyda 'Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015' wedi ei gwblhau.

Amgáu mae bil am £276.00, ffi am yr archwiliad.

Penderfynwyd talu'r bil.

b. Balan yn y banc ar 29 Gorffennaf, 2015: £6,905.80.

c. Bil (Awst 2015) am £480 oddi wrth Mr E.W. Davies am dorri gwair y Fynwent, diwedd Gorffennaf.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Derbyniwyd (10/8/2015) siec am £100.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i osod beddfaen ar y diweddar Joan Pauline Millard.

dd. Bil (19, Awst 15) am £112.07 oddi wrth Dŵr Cymru at Doiledau Cyhoeddus Bontddu at y cyfnod 17 Chwefror 15 – 18 Awst 15. Mae'n cael ei dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. (Llynedd roedd y gost yn £178.95).

e. Derbyniwyd (19-08-15) £1,328.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at ad-daliad am dorri llwybrau cyhoeddus Llanelltyd.

f. Derbyniwyd Praesept (26/08/15) am £3,250.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd.

ff. Balans yn y banc ar 29 Awst, 2015: £11,481.80.

6. Mynwent Llanelltyd

a. Wedi gwneud ymholiadau gydag E. W. Davies, I.W. Thompson ac A.M. Ashton i dorri'r gwair a choed a thacluso tyfiant ar wyneb y wal sy'n haneru'r fynwent, derbyniwyd amcan pris o £1,000 gan A.M. Ashton. Nid oedd E. W. Davies ac I.W. Thompson eisiau'r gwaith. (Gweler Cofnodion Mehefin 9, 2015).

Penderfynwyd derbyn pris Mr A.M. Ashton.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/263C. Diddymu Cytundeb Adran 106 dyddiedig 02/12/2008 mewn perthynas â Caniatâd Cynllunio NP5/65/253A. Allt Fach, Bryn Du, Llanelltyd.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc nid oes gan y Cyngor sylwadau ar y cais oherwydd gyda'r Parc mae'r arbenigwyr ar y mater. (20/7/2015).

ii. NP5/65/335. Cynllun trydan dŵr 34kw arfaethedig yn cynnwys adeiladu argae, adeilad tyrbin a gosod pibellau cysylltiedig. Afon Hirgwm, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

iii. NP5/65/133D. Cais llawn ar gyfer estyniad ac addasiadau i'r ysgol ynghyd a cae chwarae newydd. Ysgol Gynradd Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

b. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/65/133C. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Codi ystafell ddosbarth dwbl symudol unllawr dros dro a tho fflat, adeilad toiled a chyfleusterau golchi dwylo symudol, ac uned storio dros dro ar ffurf cynhwysydd llongau. Ysgol Gynradd Llanelltyd, Llanelltyd.

ii. Cais NP5/65/334. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Adeiladu estyniad ochr unllawr. Pennant, 22 Bro Cymer, Llanelltyd.

iii. Cais NP5/65/330. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Amnewid cladin allanol. Hafod Fach, Llanelltyd.

c. Llythyr (28/7/2015) gyda gwybodaeth mewn perthynas ag ymgyrch Gweld Sêr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhoddwyd copi i'r aelodau.

d. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990: Adran 191. Cais NP5/65/LU273A. Defnydd o garafán sydd fel llety ategol i dir yn Fferm Bryn Du, Llanelltyd. Mae'r Awdurdod yn rhoi gwybod bod y dystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd neu ddatblygiad mewn bodolaeth gyswllt y tir yn gyfreithiol.

8. Gohebiaeth

a. Posteri (20/7/2015) oddi wrth Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn hysbysu fflat ar rent, 12 Swn y Nant, Bontddu.

b. Llythyr (20/7/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd. Maent am roi cyfyngiad cyflymder 30mya o bwynt 57.5m o gyffordd Llanelltyd hyd at 710m i gyfeiriad Bermo. A chyfyngiad cyflymder 40mya o gyffordd Llanelltyd at bwynt 57.5. i gyfeiriad Bermo.

c. Llythyr (20/7/2015) oddi wrth Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn ateb Materion Brys o Gofnodion Mehefin 9, 2015:

i. bydd polyn ffens ar bont wrth Llwyntryfer, Taicynhaeaf yn cael ei atgyweirio.

ii. mae ffordd Cwm Wnin, Llanelltyd am gael ei ysgubo.

iii. mae tocio'r tyfiant sy'n tyfu ar wyneb y wal ar ffordd A470 rhwng Y Curfew a throad i stad Bro Cymer wedi cael ei wneud.

iiii. maent yn ceisio darganfod pwy adawodd y gwastraff yn y cilfan rhwng Pil yr Hengwrt a Hen Bont Llanelltyd.

ch. Llythyr (Awst, 2015) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru yn gwahodd ni i weithdy Hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Clercod a Chynghorwyr Cymuned a Thref yn Plas Tan y Bwlch ar ddydd Llun Medi 21 am 6yh.

d. Llythyr (Awst 2105) oddi wrth Cymorth Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru. Maent yn cynnal gweithdy hyfforddiant ar gynllunio ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref yn Adeilad yr Institiwt, Pavillion Hill, Caernarfon ar Medi 23, 2015 rhwng 6.00yh-9.00yh.

dd. Llythyr (Gorffennaf 2015) oddi wrth Shelter Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

e. Llythyr (11/8/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi'r cynigion a gyflwynir yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ar 3/10/2015.

f. Llythyr (17/08/15) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar Cod Ymddygiad. Bydd sesiwn yn Swyddfa Cyngor Gwynedd, Penarlag ar 12/10/15 am 6.30yh. Mae gwahoddiad i'r clercod a'r aelodau'r cynghorau.

ff. Llythyr (Awst 27, 2015) oddi wrth Mr Gethin Corps yn rhoi gwybod ei fod yn ymddiswyddo fel gofalwr Toiledau Bontddu diwedd mis Medi eleni.

Penderfynwyd:

i. derbyn ymddiswyddiad Mr Corps.
ii. cau'r toiledau tan y gwanwyn.
iii. rhoi gwybod i Dŵr Cymru ac i Gwasanaeth Trethi, Cyngor Gwynedd gan ddisgwyl bydd gostyngiad yn eu costau.

g. Llythyr (1/9/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gwrs Dealltwriaeth o'r Gyfraith bydd yn cael ei gynnal yn Llyfrgell Rydd Dolgellau ar ddydd Mawrth 29/9/2015 am 6.30yh. Cost y cwrs fydd £35.

Penderfynwyd derbyn cynnig Elfed ap Gomer i fod yn bresennol yn y cwrs.

h. Llythyr (01.09.2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn Bafiliwn Criced, Dolgellau ar Medi 23 am 7.00yh. Yn bresennol fydd Swyddog o Cyngor Gwynedd yn rhoi cyflwyniad ar drosglwyddo cyfrifoldebau am wasanaethau ac asedau i gynghorau cymuned a thref. Amgáu mae Agenda a Chofnodion Cyfarfod Mai 13.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Mae disgwyl i'r gwaith diogelu ffordd A496 yn Taicynhaeaf a Bontddu cael ei wneud yn yr hydref eleni.

b. Mae gwaith yn cael ei wneud ar ysgol Llanelltyd.

Roedd barn bod trefniadau difater wedi cael ei wneud gan Addysg, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag lleoliad y plant wedi cau ysgol Bontddu ac oherwydd hyn penderfynwyd anfon llythyr i Addysg.

c. Bydd sesiynau yn cael eu cynnal gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r toriadau maent yn eu hwynebu.

10. Materion Brys

a. Cofiwch am y cyfarfod i drafod cael cynghorau dalgylch y Gader i gyd weithio fel sy'n cael ei wneud yn ardal Penllyn. Bydd cyfarfod yn Neuadd Bentref y Brithdir ar nos Wener, Medi 25 am 7.30yh. i drafod y mater.

b. Oherwydd cwynion yn Bontddu am baneli metal sydd wedi cael eu rhoi i gau ffenestri Halfway Hotel, penderfynwyd rhoi gwybod am hyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

c. Penderfynwyd gofyn i Mr J.Ll. Williams tocio gordyfiant sydd yn y darn tir wrth Bont Bontddu.

ch Penderfynwyd gofyn i Mr E. Harris drwsio darn o ffens sydd wedi torri ar ochr y ffordd/afon i'r Neuadd Llanelltyd.

d. Mae angen trwsio a pheintio mainc sydd wrth bont yn Llanelltyd. Mae disgwyl i'r gwaith cael ei wneud gan Paint Right. Cafwyd gwybod mae rhywun yn cymryd cerrig o'r wal sydd wrth y fainc.

dd. Llongyfarchwyd Geraint Rowlands ar ei ddyweddïad yn ddiweddar.